PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

Sut i wneud Apêl

Apelio yn erbyn Penderfyniad Pwyllgor Safonau

Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Tribiwnlys gael Apêl?

Bydd y Tribiwnlys yn cydnabod yr apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau. Os nad ydych wedi llenwi ffurflen Hysbysiad Apêl (PDC05), byddwn yn anfon un atoch i'w llenwi.

Ar ôl i chi ei lenwi, bydd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried yr Hysbysiad o Apêl ac yn penderfynu o fewn 21 diwrnod a yw am ganiatáu gwrandawiad i'r apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau. Bydd y Llywydd yn ystyried a oes gobaith rhesymol y bydd yr apêl yn llwyddo. Seilir y penderfyniad ar gynnwys eich Hysbysiad o Apêl yn unig, oni bai y gofynnir am ragor o wybodaeth.

Os oes gan eich apêl obaith rhesymol o lwyddo, bydd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru yn penodi tribiwnlys i ystyried eich apêl yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau perthnasol. Os bydd y Llywydd yn penderfynu nad oes gan eich apêl obaith rhesymol o lwyddo, rhoddir rhesymau am hyn ond ni fydd eich apêl yn mynd yn ei blaen.

Mae'n bosibl y bydd y Llywydd yn gofyn am ragor o wybodaeth cyn gwneud ei benderfyniad. Os oes angen rhagor o wybodaeth, rhaid ei darparu o fewn 14 diwrnod i'r cais. Bydd gan y Llywydd 14 diwrnod arall ar ôl i'r Cofrestrydd dderbyn yr apêl i benderfynu a yw am ganiatáu'r apêl ai peidio.

Mae gennych hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfod y tribiwnlys hwnnw i gyflwyno sylwadau llafar yn ychwanegol at yr ymateb ysgrifenedig y gofynnir i chi ei roi ar y ffurflen Hysbysiad o Apêl, os ydych yn cael caniatâd i apelio.

Gallwch alw ar dystion i ategu eich ymateb a gallwch gael eich cynrychioli gan fargyfreithiwr, cyfreithiwr neu unrhyw un arall a ddewiswch.

Nid oes yn rhaid i chi gael eich cynrychioli, chi biau'r dewis.

Un o ddibenion y ffurflen hon yw helpu'r rhai sy'n dewis cynrychioli eu hunain i ystyried y prif faterion sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad y tribiwnlys.

Os hoffech, gallwch wneud cais i'r tribiwnlys ddyfarnu'r Apêl drwy sylwadau ysgrifenedig. Fodd bynnag, y tribiwnlys fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Mae **Adran 3** yn gofyn i chi a ydych yn fodlon i'r apêl gael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig, fel sy'n ofynnol o dan reoliad 10(3) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001 (OS 2001 Rhif 2281).

Nodi eich rhesymau dros apelio.

Dylech ddefnyddio **Adran 4** o'r ffurflen i nodi eich rhesymau dros apelio. Dylech geisio rhoi trosolwg o'ch rhesymau dros anghytuno â chanfyddiadau'r pwyllgor safonau. Yn rhannau dilynol y ffurflen, gallwch roi gwybodaeth fanylach i ategu'r rhesymau dros apelio yr ydych wedi'u nodi.

Ym mha ffordd ydw i'n anghytuno â'r ffeithiau perthnasol?

Dylech ddefnyddio **Adran 5** o'r ffurflen hon i nodi unrhyw anghydfodau a all godi ynglŷn â'r ffeithiau perthnasol. Bydd y tribiwnlys yn gwneud ei benderfyniad ei hun ynglŷn â'r ffeithiau perthnasol, ar ôl ystyried yr hyn sydd gennych chi, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Swyddog Monitro (fel sy'n briodol) a'r pwyllgor safonau i'w ddweud am yr achos honedig o dorri'r cod ymddygiad.
Os bydd yn ymddangos, *ar sail y ffeithiau sy'n cael eu cyflwyno yng ngwrandawiad y tribiwnlys,* ei bod yn bosibl eich bod wedi methu â dilyn darpariaethau'r cod ymddygiad, bydd y tribiwnlys wedyn yn gwrando ar gyflwyniadau ynghylch a fu methiant o'r fath. Gallwch ddefnyddio **Adran 6** o'r ffurflen i nodi unrhyw gyflwyniadau yr hoffech eu gwneud.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r tribiwnlys ystyried y dystiolaeth?

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar, bydd y tribiwnlys yn ffurfio ac yn cyhoeddi ei farn ynghylch p'un a ydych wedi methu â dilyn darpariaethau'r cod ymddygiad.

Os daw'r tribiwnlys i'r casgliad i chi fethu â dilyn darpariaethau'r cod ymddygiad, bydd yn ystyried pa gamau y dylid eu cymryd.

Gallai'r camau hynny gynnwys eich gwahardd, neu eich gwahardd yn rhannol, rhag bod yn aelod o awdurdodau cyhoeddus perthnasol.

Gallwch ddefnyddio **Adran 7** o'r ffurflen hon i nodi unrhyw sylwadau yr hoffech i'r tribiwnlys eu hystyried os bydd yn cyrraedd y cam hwn.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r tribiwnlys wedi ffurfio barn o gwbl ynglŷn â pha mor debygol ydyw eich bod wedi methu â dilyn darpariaethau'r cod ymddygiad.

Alla i anfon cais i'r Tribiwnlys drwy e-bost?

Mae Panel Dyfarnu Cymru yn derbyn ceisiadau a gohebiaeth drwy e-bost. Mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adran Cysylltu â Ni ar wefan Panel Dyfarnu Cymru ac ar ddiwedd y canllaw hwn. Gallwch hefyd gyflwyno eich apêl drwy'r post.

Beth os oes gennyf unrhyw anghenion ychwanegol?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi manylion unrhyw anghenion ychwanegol sydd gennych pan fyddwch yn anfon eich cais atom. Er enghraifft, os bydd angen arwyddwr neu ddehonglydd arnoch yn y gwrandawiad, neu os bydd angen gwneud unrhyw drefniadau ychwanegol fel y gallwch fynd i'r gwrandawiad.

A yw fy apêl a thystiolaeth ategol yn cael eu cadw'n gyfrinachol?

Dim ond i'r rhai sy'n gysylltiedig â'r achos y byddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhoi i'r Tribiwnlys am apêl. Fodd bynnag, bydd y gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd.

Sut bydd y dogfennau'n cael eu hanfon ata i?

Bydd yr holl ddogfennau gweithdrefnol yn cael eu hanfon drwy Wasanaeth Cofnodedig neu Ddosbarthu Arbennig y Post Brenhinol oni bai eich bod wedi gofyn am wasanaeth drwy e-bost.

Alla i wneud fy nghais yn Gymraeg?

Mae'r Tribiwnlys yn derbyn apeliadau a gohebiaeth yn Gymraeg.

All y Tribiwnlys roi cyngor?

Mae'r Tribiwnlys yn Gorff Barnwrol annibynnol ac felly rhaid iddo fod yn ddiduedd wrth ddelio ag anghydfodau. Gall ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys roi cyngor ar drefniadau'r Tribiwnlys; fodd bynnag, ni all y Tribiwnlys roi cyngor nac arweiniad cyfreithiol ar sut i gyflwyno achos.

Gwybodaeth Gyswllt

Cyfeiriad: Cofrestrydd y Panel
Panel Dyfarnu Cymru
Uned Tribiwnlys Cymru
PO BOX 100
Llandrindod
LD1 9BW

Ffôn: 03000 259 805
E-bost: adjudication.panel@llyw.cymru
Gwefan: https://paneldyfarnu.llyw.cymru